OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

## Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

### RHAN 3

CAFFAEL TIR

**Cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965**

**17.**—(1) Mae Rhan 1 o Ddeddf 1965, i'r graddau nad yw wedi ei haddasu gan, neu'n anghyson â, darpariaethau'r Gorchymyn hwn, yn gymwys o ran caffael tir o dan y Gorchymyn hwn—

(a) fel y mae'n gymwys i brynu gorfodol y mae Deddf Caffael Tir 1981(**1**) yn gymwys iddo, a

(b) fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn orchymyn prynu gorfodol o dan y Ddeddf honno.

(2) Mae Rhan 1 o Ddeddf 1965, fel y'i cymhwysir felly, yn cael effaith fel pe bai adran 4 (sy'n darparu terfyn amser ar gyfer prynu tir yn orfodol) a pharagraff 3(3) o Atodlen 3 (sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â rhoi bondiau) wedi eu hepgor.

(**1**) 1981 p. 67.